Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

Annwyl Ymgeisydd,

**Diolch am eich diddordeb yn swydd Cyfarwyddwr Cyswllt Carne, Darpar Arweinwyr Cymru yn Theatr y Sherman.**

Mae'n gyfnod cyffrous i Theatr y Sherman. Rydyn ni wedi lansio tymor newydd, wedi dechrau pennod newydd, ac yn edrych ymlaen gydag uchelgais a chred yn nyfodol theatr Cymru.

Mae'r dyfodol hwnnw yn dibynnu ar artistiaid ac arweinwyr. Dyma pam mae'r rhaglen yma'n bwysig.

Bydd rhaglen Darpar Arweinwyr Cymru, sy'n bosib diolch i gefnogaeth hael Philip a Christine Carne, yn creu tair swydd Cyfarwyddwr Cyswllt gyflogedig lawn amser dros y pum mlynedd nesaf, gan roi cyfle i gyfarwyddwyr o Gymru ddatblygu nid yn unig fel artistiaid, ond fel arweinwyr.

Rwy'n gwybod pa mor drawsnewidiol gall cyfle fel hyn fod. Yn gynnar yn fy ngyrfa i, agorodd rhaglen debyg ddrws i fi, gan fy ngalluogi i fynd i swydd arwain a chael profiad y tu hwnt i gyfarwyddo cynyrchiadau. Newidiodd hyn gyfeiriad fy ngyrfa. Rydyn ni am greu'r cyfleoedd yna i'r genhedlaeth nesaf.

Mae'r swydd yma'n llawer mwy na chyfarwyddo. Mae'n cynnig cyfle i dreulio deunaw mis mewn theatr gynhyrchu, yn dysgu sut mae arweinyddiaeth artistig yn gweithio yn ymarferol. Ochr yn ochr â chyfleoedd cyfarwyddo, byddwch yn cael profiad ym maes rhaglennu, strategaeth, partneriaethau, codi arian, llywodraethu, arwain staff a datblygu cynulleidfaoedd. Byddwch chi'n gweithio'n agos gyda fi a thîm ehangach y Sherman, yn helpu i siapio bywyd y sefydliad gan ddatblygu eich llais artistig a'ch dull arwain.

Rydyn ni'n gwybod bod Cymru'n llawn o ddoniau cyfarwyddo eithriadol. Yr hyn sydd ar goll yw llwybrau clir at swyddi arwain. Mae swyddi Cyfarwyddwyr Artistig yn brin, ac mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i gyfleoedd i gael profiad sefydliadol parhaus. Rydyn ni'n credu y gall y Sherman helpu i newid hynny.

Dydyn ni ddim yn chwilio am bobl sydd â'r holl atebion. Rydyn ni'n chwilio am artistiaid chwilfrydig, hael ac uchelgeisiol. Pobl sydd eisiau dysgu, cyfrannu a helpu i siapio sut beth gallai arweinyddiaeth theatr fod yng Nghymru.

Yn y pen draw, mae'r rhaglen yma'n ymwneud ag adeiladu dyfodol theatr Cymru: cefnogi artistiaid gwych, datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr, a sicrhau bod ein sector yn parhau i fod yn fywiog, yn uchelgeisiol ac yn wydn am flynyddoedd i ddod.

Er bod hon yn swydd tymor penodol lawn amser, rydyn ni'n ymwybodol iawn y bydd gan lawer o bobl ymrwymiadau y tu hwnt i fis Ionawr 2027.  Peidiwch â gadael i hyn eich atal rhag ymgeisio, rydyn ni'n hapus i drafod unrhyw ymrwymiadau gwaith sydd gennych ac i fod yn hyblyg.

Gobeithiwn y byddwch chi'n ystyried ymgeisio. Rydyn ni'n llawn cyffro am yr artistiaid y byddwn ni'n cwrdd â nhw drwy'r broses yma a'r effaith byddan nhw'n ei chael ar Theatr y Sherman, ac ar ddyfodol theatr yng Nghymru a'r tu hwnt.

**Francesca Goodridge a Julia Barry**
*Cyfarwyddwr Artistig a Phrif Weithredwr, Theatr y Sherman*

SHERMAN THEATR • THEATRE

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# CYFARWYDDWR CYSWLLT CARNE:

**Cyflog:** £30,000 y flwyddyn.

**Cyfnod:** Contract llawn amser, tymor penodol am 18 mis, yn dechrau ym mis Ionawr 2027.
Mae unrhyw gynnig a wnawn yn amodol ar y canlynol:

- derbyn dau eirda boddhaol
- prawf o gymhwysedd i weithio yng ngwledydd Prydain
- cwblhau cyfnod prawf o 12 wythnos yn llwyddiannus

**Oriau:** 39 awr yr wythnos gan gynnwys rhywfaint o waith gyda'r nos ac ar benwythnosau. Bydd amser o'r gwaith yn lle tâl (TOIL) yn berthnasol i unrhyw oriau dros 39 awr a weithir mewn wythnos

Rydyn ni'n deall efallai y bydd gennych ymrwymiadau gwaith eraill yn y dyfodol. Rhowch wybod i ni am unrhyw ymrwymiadau sydd gennych er mwyn i ni eu hystyried a bod mor hyblyg â phosib am y rôl.

**Gwyliau:** 22 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â'r 8 gŵyl y banc/gwyliau cyhoeddus cydnabyddedig,

**Cyfnod Rhybudd:** Mis (wythnos yw'r cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod prawf)

**Pensiwn:** Mae Theatr y Sherman yn gweithredu cynllun pensiwn gweithle cymwys.

**Hawl i weithio:** Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennaeth o dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006.

**Geirdaon:** Bydd unrhyw gynnig cyflogaeth yn amodol ar gael geirdaon sy'n foddhaol i Theatr y Sherman.

**Adleoli:** Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fyw o fewn pellter cymudo i'r theatr.

**Dyddiad dechrau:** Ionawr 2027.

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# DISGRIFIAD SWYDD: CYFARWYDDWR CYSWLLT CARNE

**Prif ddiben y swydd**
Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Artistig i wireddu rhaglen artistig anturus ac unigryw, gan weithio gyda'r tîm llenyddol ar weithgarwch datblygu awduron a chomisiynu sgriptiau, a chyfrannu at ehangder cyflawniadau creadigol y Cwmni.

**Yn adrodd i**
Cyfarwyddwr Artistig

**Cydberthnasau allweddol**
Prif Weithredwr, Tîm Llenyddol

**Yn gyfrifol am**
Perthnasau â chwmnïau ac artistiaid allanol

## CYFRIFOLDEBAU A DYLETSWYDDAU:

**Arweinyddiaeth Artistig a Strategaeth**

- Darparu arweinyddiaeth greadigol a chefnogi'r Cyfarwyddwr Artistig yn y gwaith o siapio a darparu gweledigaeth artistig uchelgeisiol, ddychmygus ac unigryw ar gyfer Theatr y Sherman.
- Mynd ati'n rhagweithiol i gyfrannu at wneud penderfyniadau strategol, cynllunio artistig a datblygu gwaith y theatr yn y dyfodol.

**Rhaglen Artistig a Gwaith Newydd**

- Siapio a datblygu elfennau o raglen artistig y Sherman ar draws gwaith Cymraeg a Saesneg, ysgrifennu newydd, comisiynau, gwaith sy'n ymweld a chyd-gynyrchiadau.
- Nodi a hyrwyddo prosiectau, artistiaid a syniadau uchelgeisiol sydd â'r potensial i ddod yn rhan o raglen y Sherman yn y dyfodol.

**Cyfarwyddo ac Arfer Artistig**

- Cyfarwyddo o leiaf un cynhyrchiad Gwnaed yn y Sherman un ai yn ystod y lleoliad 18 mis neu ar ôl hynny, gan weithio gyda'r timau creadigol, cynhyrchwyr a'r tîm ehangach i ddarparu gwaith o'r ansawdd artistig uchaf.

- Cymryd arweinyddiaeth artistig o gynyrchiadau a phrosiectau y cytunwyd arnynt, gan gyfarwyddo gwaith i safon uchel a datblygu arfer creadigol unigryw.

- Bod yn gyfarwyddwr cyswllt ar sawl cynhyrchiad yn ystod y cyfnod 18 mis pan yn briodol, gan gymryd cyfrifoldeb cynyddol am benderfyniadau creadigol ac arweinyddiaeth ar draws gwahanol raddfeydd a mathau o waith.

- Cefnogi'r broses gastio ar gynyrchiadau a chyd-gynyrchiadau Gwnaed yn y Sherman ac arwain clyweliadau pan fydd angen.

- Gweld gwaith sy'n cael ei ddatblygu a pherfformiadau mewn mannau eraill – gan gadw'n gyfredol â gwaith awduron, cyfarwyddwyr a thimau creadigol a datblygu'r perthnasau hynny.

- Datblygu ac adeiladu ar berthnasau sy'n bodoli gyda Chyfarwyddwyr, Cyfarwyddwyr Artistig a Chyfarwyddwyr Cyswllt mewn theatrau eraill.

- Datblygu dramâu comisiwn a chyflawni gwaith dramatwrgaidd, a galluogi artistiaid newydd a sefydledig, gyda ffocws ar leisiau wedi'u tangynrychioli.

- Cefnogi sioeau'r tŷ a sioeau sy'n ymweld yn ystod ymarferion technegol a rhag-ddangosiadau – gan gynnig awgrymiadau a chefnogaeth i'r cyfarwyddwyr a'r timau creadigol.

**Datblygu Artistiaid**

- Hyrwyddo a datblygu awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, perfformwyr, dylunwyr ac artistiaid eraill sy'n newydd ac yn sefydledig.
- Meithrin perthnasau parhaus gydag artistiaid, nodi doniau a chreu cyfleoedd sy'n galluogi artistiaid i ddatblygu gwaith uchelgeisiol a gyrfaoedd cynaliadwy.

- Arwain a datblygu rhaglenni datblygu artistiaid cytunedig. Siapio cyfleoedd, mentora, rhwydweithiau a llwyfannau sy'n cyfrannu at ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr artistig.

**Ymchwil, Datblygu ac Arloesi**

- Dechrau ac arwain gweithgarwch ymchwil a datblygu, gan gynnwys gweithdai, labordai, darlleniadau, perfformiadau gwaith ar waith a digwyddiadau rhannu. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn defnyddio adnodd ymchwil a datblygu cytunedig i ddatblygu awdur, prosiect neu syniad sydd â photensial i fod yn gynhyrchiad i'r Sherman yn y dyfodol, ac archwilio ymagweddau newydd tuag at greu theatr ac arfer creadigol.

**Partneriaethau a Chyd-gynyrchiadau**

- Dechrau a datblygu perthnasau strategol gyda theatrau, gwyliau, sefydliadau diwylliannol, cynhyrchwyr annibynnol ac artistiaid yng Nghymru a gwledydd Prydain sy'n ehangu cyrhaeddiad artistig, enw da ac effaith y Theatr y Sherman.

**Rhwydweithiau Arweinyddiaeth ac Arweinyddiaeth Sector**

- Cynnal rhwydwaith artistig gweithredol a dylanwadol ar draws Cymru, gwledydd Prydain ac yn rhyngwladol. Nodi tueddiadau, artistiaid a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg chynnig meddwl newydd i'r Sherman. Cynrychioli'r sefydliad mewn digwyddiadau'r diwydiant, gwyliau, cynadleddau, digwyddiadau arddangos, a thrwy weithgarwch priodol yn y cyfryngau.

- Gweithredu fel eiriolwr i Theatr y Sherman a'i gwaith yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac fel llefarydd cwmni ar gyfer cyfryngau priodol; yn benodol ar gyfer gweithgarwch yn ymwneud â datblygu artistiaid.

**Cymuned, Cynulleidfaoedd, ac Arweinyddiaeth Ddiwylliannol**

- Darparu arweinyddiaeth greadigol i fentrau sy'n cysylltu rhaglen artistig y Sherman gyda chymunedau a chynulleidfaoedd lleol, gan weithio ar draws timau artistig a chyfranogiad i ddatblygu cynulleidfaoedd newydd a llwybrau ystyrlon i'r sefydliad. Hyrwyddo gwaith Cymraeg a chyfrannu at arweinyddiaeth ddiwylliannol y Sherman yng Nghymru.

**Arweinyddiaeth Gynhwysol a Chyfrifol**

- Hyrwyddo diwylliant creadigol cynhwysol, cydweithredol ac uchelgeisiol. Ymgorffori tegwch, amrywiaeth, hygyrchedd, cynrychiolaeth, diogelu, cyfrifoldeb amgylcheddol a gwrth-hiliaeth mewn penderfyniadau artistig, datblygiad artistiaid ac ymarfer sefydliadol.

**Datblygu Arweinyddiaeth a Thwf Proffesiynol**

- Defnyddio'r cyfnod o ddeunaw mis fel Cyfarwyddwr Cyswllt i ddatblygu fel arweinydd artistig y dyfodol drwy gyfrifoldeb ymarferol, mentora, cysgodi a chysylltiad strategol ar draws gweithgarwch artistig, cynhyrchu, rhaglennu, comisiynu, llywodraethu a sefydliadol.
- Datblygu dealltwriaeth gref o gyfrifoldebau ariannol, gweithredol, masnachol ac elusennol rhedeg theatr gynhyrchu, gan gynnwys drwy ymgysylltu â'r Bwrdd a phrosesau llywodraethu.
- Treulio amser ym mhob adran o'r theatr, gan ddysgu a deall y manylion o ran sut mae theatr gynhyrchu yn cael ei rhedeg.

- Meithrin yr hyder, y profiad a'r rhwydweithiau proffesiynol sydd eu hangen ar gyfer gyrfa arwain gynaliadwy.

**Gwerthuso, Dysgu a Gwaddol**

- Arwain a chyfrannu at werthuso prosiectau artistig a rhaglenni datblygu, gan ddefnyddio'ch gwybodaeth a'r hyn a ddysgir i lywio strategaeth ac arferion yn y dyfodol. Rhannu'r hyn a ddysgir ar draws y sefydliad, cyfrannu at ddatblygiad parhaus y model Cyfarwyddwr Cyswllt a helpu i greu llwybrau ar gyfer arweinwyr artistig yn y dyfodol.
- Cefnogi'r gwaith o recriwtio'r Cyfarwyddwr Cyswllt nesaf.

SHERMAN THEATR • THEATRE

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# MANYLEB YR UNIGOLYN: CYFARWYDDWR CYSWLLT

## HANFODOL

- *Cyfarwyddwr profiadol â hanes o gyfarwyddo sioeau mewn theatrau cynhyrchu maint canolig.*
- *Profiad o weithio gydag awduron comisiwn, gyda dealltwriaeth gref o'r broses ddramatwrgaidd.*
- *Profiad o ddatblygu a gwireddu prosiectau creadigol gydag artistiaid eraill.*
- *Rhaid eich bod wedi bod yn gyfarwyddwr neu'n arweinydd creadigol ar o leiaf dri chynhyrchiad proffesiynol.*
- *Uchelgais i weithio mewn swydd arwain yn y sector.*
- *Dealltwriaeth fanwl o arfer theatr, yng ngwledydd Prydain ac yn rhyngwladol,*
- *Ymrwymiad i weithio ar y cyd. Datblygu, cynnal a chryfhau partneriaethau gydag eraill yn y sefydliad neu'r tu allan iddo a all ddarparu gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth.*
- *Y gallu i feddwl yn greadigol a llunio prosiectau creadigol a chyfranogiad beiddgar.*
- *Y gallu i reoli sawl prosiect ar yr un pryd, gan gyrraedd targedau a therfynau amser artistig ac ariannol.*
- *Meddu ar syniadau beiddgar ac uchelgeisiol ar gyfer cynyrchiadau yn y dyfodol ac awydd i greu theatr o'r ansawdd uchaf.*

## DYMUNOL

- *Dealltwriaeth o'r Gymraeg.*
- *Gwybodaeth am arferion theatr presennol yng Nghymru.*
- *Dealltwriaeth o'r strwythurau a'r cyfleoedd ar gyfer ariannu'r celfyddydau.*
- *Profiad mewn amgylchedd theatr gynhyrchu.*
- *Trwydded yrru lawn.*
- *Sgiliau rheoli cyllidebau.*

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# SUT I YMGEISIO

Cwestiynau'r Cais

**Mae'r cyfle hwn wedi'i anelu at gyfarwyddwr sefydledig ar ganol eu gyrfa sy'n byw yng Nghymru neu sy'n dod o Gymru ac sydd ag o leiaf bum mlynedd o brofiad proffesiynol a/neu o leiaf dri chredyd cynhyrchu proffesiynol.**

1. Gwneud y gorau o'r cyfle
**Sut ydych chi'n bwriadu gwneud y gorau o'r cyfle hwn, a pham mai dyma'r adeg gywir yn eich gyrfa chi i gamu i'r rôl hon?** *(hyd at 800 gair)*
Soniwch am ble ydych chi ar eich taith artistig a phroffesiynol. Pa sgiliau, profiadau, cydberthnasau neu safbwyntiau ydych chi'n gobeithio eu datblygu trwy'r cyfle hwn? Sut bydd cymryd rhan yn cefnogi eich uchelgeisiau hirdymor fel cyfarwyddwr, a pha effaith ydych chi'n gobeithio y bydd yn ei chael ar eich arfer creadigol, eich llwybr gyrfa, a'ch cyfraniad i'r sector theatr ehangach yng Nghymru?

2. Arweinyddiaeth
**Beth am arweinyddiaeth sy'n eich diddori chi, a pha fath o arweinydd ydych chi'n anelu i fod?** *(hyd at 800 gair)*
Mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn am arweinyddiaeth yn y sector celfyddydau a diwylliannol. Myfyriwch ar eich profiad hyd yma a dywedwch beth sydd wedi siapio eich dealltwriaeth o arweinyddiaeth. Sut ydych chi'n arwain, yn cefnogi, neu'n dylanwadu ar eraill drwy eich gwaith ar hyn o bryd? Beth sy'n eich cymell chi i archwilio arweinyddiaeth ymhellach, a sut ydych chi'n gobeithio defnyddio arweinyddiaeth i greu newid cadarnhaol ar gyfer artistiaid, cynulleidfaoedd, cymunedau neu sefydliadau?

3. Eich gweledigaeth ar gyfer Theatr y Sherman
**Pe baech chi'n cael cyfle i ddatblygu rhaglen newydd neu gomisiynu darn o waith yn Theatr y Sherman, beth fyddech chi'n ei greu a pham?** *(hyd at 800 gair)*
Disgrifiwch eich syniad a'r angen artistig, cymdeithasol neu ddiwylliannol y byddai'n ymateb iddo. Beth sy'n eich cyffroi am y prosiect? Ar gyfer pwy fyddai'r prosiect, a pha effaith fyddech chi'n gobeithio y bydd yn ei chael ar artistiaid, cynulleidfaoedd neu gymunedau? Mae gennym ddiddordeb nid yn unig yn y syniad, ond hefyd yn y ffordd mae'n adlewyrchu eich gwerthoedd, eich gweledigaeth ar gyfer dyfodol theatr, a'ch dealltwriaeth o rôl Theatr y Sherman yng Nghymru a'r tu hwnt.

4. Cysondeb creadigol gyda Theatr y Sherman
**Pa agweddau ar weledigaeth artistig, gwerthoedd a gwaith Theatr y Sherman sy'n atseinio gryfaf gyda'ch arfer chi fel cyfarwyddwr, a pha uchelgeisiau fyddwch chi'n eu cynnig er mwyn parhau i helpu i wella'r sefydliad?** *(hyd at 800 gair)*
Soniwch am y themâu, yr ymagweddau, y gwerthoedd neu'r uchelgeisiau sy'n cysylltu eich gwaith gyda'n gwaith ni. Efallai y byddwch am gyfeirio at gynyrchiadau, rhaglenni neu feysydd gwaith penodol Theatr y Sherman sydd wedi'ch ysbrydoli. Sut mae eich hunaniaeth greadigol yn cyd-fynd ag ymrwymiad y sefydliad i artistiaid, cynulleidfaoedd, a gwaith newydd, a sut byddech chi'n defnyddio'r cyfle hwn i gyfrannu at ddatblygiad a thwf artistig parhaus y sefydliad?

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

I wneud cais, plîs anfonwch CV, dolenni at wefan / unrhyw waith, y daflen flaen a'ch ymateb i'r cwestiynau uchod at: recruitment@shermantheatre.co.uk. Noder, yn unol â'n polisi amgylcheddol, mai dim ond ceisiadau electronig y byddwn yn ymdrin â nhw.

Sicrhewch eich bod yn llenwi Holiadur Monitro Cydraddoldeb Theatr y Sherman sydd ar gael yma shermantheatre.co.uk/amdanom-ni/jobs/?lang=cy

Y dyddiad cau yw **hanner dydd ddydd Llun 12 Hydref 2026**. Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais dros e-bost.

Rydyn ni'n gobeithio cynnal cyfweliadau **22 Hydref 2026**. Rhowch wybod i ni, ar daflen flaen y cais, a fyddech ar gael i gael cyfweliad ar y dyddiad hwnnw fel y byddwn yn gwybod mewn da bryd os bydd angen i ni wneud trefniadau eraill ar gyfer unrhyw ymgeiswyr fydd ar y rhestr fer.
Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cyn i chi wneud cais, cysylltwch â ni drwy ebostio recruitment@shermantheatre.co.uk